

# Polisi Preifatrwydd Effaith Gwyrdd

## Rhagarweiniad

Diolch am ddilyn y ddolen i gael gwybod mwy am yr hyn yr ydym yn ei wneud i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Prosiect a gyflwynir gan Wasanaethau Elusennol UCM yw Effaith Gwyrdd, ac mae'n rhan o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) y DU. Mae UCM yn un o'r mudiadau myfyrwyr hynaf yn y byd, ac rydym yn gweithio'n galed bob dydd i helpu gwneud profiadau myfyrwyr y gorau y gallant fod.

Rydym yn gwybod, pan fyddwch chi'n trosglwyddo eich manylion personol i ni, eich bod yn ymddiried ynom ni i'w cadw'n ddiogel, a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud hyn. Rydym yn gweithredu yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Rydym am i chi deimlo'n hyderus, pan fyddwch yn trosglwyddo'ch manylion i ni, y byddant yn cael eu cadw'n ddiogel. Os oes unrhyw beth nad ydym wedi'i wneud yn berffaith glir, neu os ydych chi am wybod unrhyw beth arall, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y ddogfen hon; byddwn yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae UCM yn casglu a defnyddio gwybodaeth y gallwn ei chadw amdanoch chi fel unigolyn sy'n cymryd rhan yn rhaglen Effaith Gwyrdd.

## Egwyddorion Preifatrwydd

Mae UCM yn cymryd preifatrwydd o ddifrif. Mae'r egwyddorion canlynol yn sail i'n hymagweddiad at barchu eich preifatrwydd:

- Rydym yn gosod gwerth ar y ffaith eich bod yn ymddiried ynom ni drwy ein darparu â'ch gwybodaeth bersonol. Byddwn bob amser yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n deg ac yn deilwng o'r ymddiriedaeth honno.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth glir am sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Byddwn bob amser yn dryloyw â chi ynglŷn â'r wybodaeth y byddwn yn ei chasglu, yr hyn yr ydym yn ei wneud â'r wybodaeth honno, gyda phwy y byddwn yn ei rhannu a phwy y dylech gysylltu â nhw os oes gennych chi unrhyw bryderon.
- Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i amddiffyn eich gwybodaeth rhag cael ei chamddefnyddio ac yn ei chadw'n ddiogel.
- Byddwn yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau diogelu data perthnasol a byddwn yn cydweithredu ag awdurdodau diogelu data. Yn absenoldeb deddfwriaeth diogelu data, byddwn yn gweithredu'n unol ag egwyddorion a dderbynnir yn gyffredinol parthed diogelu data.

## Beth yw gwybodaeth bersonol?

Gwybodaeth bersonol yw unrhyw wybodaeth sy'n dweud wrthym rywbeth amdanoch chi neu a allai eich adnabod fel unigolyn. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth fel eich enw, manylion cyswllt neu ddyddiad geni.

**Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chasglu, a sut ydyn ni'n ei chasglu**[Error! Reference source not found.](#)

## Gwybodaeth Bersonol

Rydym ond yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi **y byddwch chi'n ei rhoi i ni'n uniongyrchol**, e.e. pan fyddwch chi'n cofrestru ar gyfer pecyn cymorth Effaith Gwyrdd, yn defnyddio gwefan Effaith Gwyrdd, yn darparu eich manylion wrth gofrestru ar gyfer digwyddiad, yn cymryd rhan mewn arolwg neu pan fyddwch yn cofrestru i dderbyn gwybodaeth (e.e. cylchlythyr). Pryd bynnag y byddwch yn rhoi data i ni, byddwn yn dweud wrthyf sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth - mae hyn yn cynnwys y wybodaeth sy'n ymddangos ar daflenni cofrestru, neu yn y rhagarweiniad i arolygon ar-lein.

Cesglir y data canlynol drwy'r pecyn cymorth Effaith Gwyrdd ar wahanol adegau yn ystod rhaglen Effaith Gwyrdd. Er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus yn eich sefydliad, mae'n hanfodol cofrestru ar-lein a darparu'r wybodaeth hon. Gan mai rhaglen wirfoddol yw Effaith Gwyrdd, gallwch chi bob amser **dewis peidio â chofrestru** a chysylltu â'ch tîm cyflwyno Effaith Gwyrdd lleol i ganfod opsiynau eraill.

Wrth gofrestru:

- Angenrheidiol (pob defnyddiwr): enw cyntaf, enw olaf, cyfeiriad e-bost, lleoliad/adeilad, cyfrinair, enw tîm, rhif ffôn gwaith
- Angenrheidiol (os yw'r sefydliad am gasglu mwy o wybodaeth): lleoliad y tîm Effaith Gwyrdd, nifer y bobl yn y tîm, nifer y bobl sy'n gweithio ar y maes mae'r tîm yn ei gwmpasu, adran y mae'r tîm yn perthyn iddi
- Dewisol (pob defnyddiwr): rhif ffôn gwaith, dewis iaith

Drwy gydol y rhaglen:

- Wrth uwchlwytho tystiolaeth neu wneud sylw, rydym yn casglu gwybodaeth am weithgareddau eich tîm
- Ar gyfer pob gweithred, mae gennych yr opsiwn o uwchlwytho tystiolaeth i ddangos sut rydych chi wedi gweithredu'r dasg. Gallai'r dystiolaeth gynnwys lluniau, cofnodion cyfarfodydd tîm, posteri neu sylwadau, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn, Chi gaiff ddewis pa dystiolaeth rydych chi am ei huwchlwytho. Peidiwch ag uwchlwytho unrhyw wybodaeth a allai gynnwys data personol. Yn hytrach, gallwch ddewis dangos hyn i'ch archwilydd yn ystod y broses archwilio.

**Error! Reference source not found.** Mae'n bosib y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth at y dibenion canlynol:

- Anfon e-bost croeso Effaith Gwyrdd atoch i'ch hysbysu ynghylch eich cofrestrriad llwyddiannus neu gais am becyn cymorth.
- Anfon cylchlythyrau neu ddiweddariadau atoch chi am raglen Effaith Gwyrdd - naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r Prif Gyswllt ar gyfer Effaith Gwyrdd yn eich sefydliad.
- Cysylltu â chi i ofyn am y diweddaraf am eich cynnydd gyda rhaglen Effaith Gwyrdd - naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r Prif Gyswllt ar gyfer Effaith Werdd yn eich sefydliad.

- Cynnal ymchwil ar effaith a chyrhaeddiad rhaglen Effaith Gwyrdd, fel y gallwn ddathlu hyn a gwella ein gwasanaethau - ni ddefnyddir eich data personol fel rhan o'r broses hon, ond rydym yn mesur faint o bobl sy'n cymryd rhan, ar draws pa sefydliadau, a.y.b.
- Os ydym am ddefnyddio unrhyw ran o'r dystiolaeth a uwchlwythwyd gennych i'r pecyn cymorth ar-lein, e.e. lluniau neu ddogfennau, at ddibenion cyfathrebu ac enghreifftiau o arfer gorau, byddwn bob amser yn cysylltu â chi cyn defnyddio gwybodaeth o'r fath i ofyn am eich caniatâd. I gysylltu â chi, byddwn yn defnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd gennych.
- I'ch darparu â'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i'n polisi preifatrwydd.

Gallwch ddewis peidio â derbyn cyfathrebiadau oddi wrthym ar unrhyw adeg. Bydd unrhyw gyfathrebiadau rheolaidd (e.e. cylchlythyrau) y byddwn yn eu hanfon atoch yn cynnwys y wybodaeth a'r modd angenrheidiol i optio allan.

Rydym yn cadw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn gyfoes, felly os oes unrhyw newidiadau yn y ffordd y caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio, caiff y rhybudd preifatrwydd hwn ei ddiweddarau a byddwn yn eich hysbysu o'r newidiadau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy dîm cyflwyno Effaith Gwyrdd lleol eich sefydliad.

**Error! Reference source not found.** O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, dim ond os oes gennym sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth diogelu data, y gallwn ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol. Mae'r sail gyfreithiol sy'n ein galluogi i ddefnyddio'ch gwybodaeth yn dibynnu ar ba ddiben y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno. Rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol canlynol i ddefnyddio'ch gwybodaeth:

- Lle mae angen gwybodaeth arnom i gyflawni'r cytundeb sydd gennym â chi.
- Lle mae angen i ni gydymffurfio â gofynion cyfreithiol.
- Pan fo'n angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (neu rai trydydd parti) ac nid yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol chi'n trechu'r buddiannau hynny.

Mewn amgylchiadau mwy cyfyngedig, efallai y byddwn hefyd yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol canlynol:

- Lle mae angen i ni amddiffyn eich buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall).
- Lle mae ei angen er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol.

**Error! Reference source not found.** Rydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol yn y ffyrdd canlynol:

- Os yw'ch sefydliad yn cynnal y rhaglen drwy un o'n sefydliadau partner (e.e. rootAbility, ACTS), byddwn yn sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol ar gael iddynt er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus yn eich sefydliad. Gall y sefydliad partner ddefnyddio'r wybodaeth yn yr un modd ag UCM, fel y nodir yn y polisi preifatrwydd hwn.

- Byddwn yn rhannu eich data gyda'r Prif Gyswllt ar gyfer Effaith Gwyrdd yn eich sefydliad, er mwyn eu galluogi i gysylltu â chi ynghylch y rhaglen a rhoi cymorth priodol i chi.
- Rydym yn sicrhau bod eich manylion cyswllt personol ar gael i'ch tîm cyflwyno Effaith Gwyrdd lleol yn eich sefydliad, fel y gallant gyfathrebu â chi fel cyfranogwr yn y rhaglen. Er enghraifft, mae'n bosib y cewch wahoddiadau i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag Effaith Gwyrdd sydd ar y gweill, fel digwyddiadau lansio, hyfforddiant, archwiliadau a seremonïau gwobrwyo.
- Gydag endidau eraill yn ein grŵp UCM (e.e. Elusen UCM ac *NUS Holdings*).
- Lle rydym yn defnyddio darparwyr gwasanaethau trydydd parti sy'n prosesu gwybodaeth bersonol ar ein rhan er mwyn darparu gwasanaethau i ni. Mae hyn yn cynnwys darparwyr systemau TG a chontractwyr TG.

Er mwyn cyflwyno pecyn cymorth Effaith Gwyrdd, rydym yn gweithio gyda'r canlynol:

- Arrk fel ein datblygwr meddalwedd (Arrk Limited, 196 Deansgate, Manceinion, M3 3WF).
- Handshake Productions fel ein rheolwr gweinydd (Handshake Productions C.I.376 Heol Casnewydd, Caerdydd CF23 9AE)
- Ac mae UCM yn cadw copi o'r gronfa ddata ar weinydd diogel UCM at ddibenion llunio adroddiadau
- Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â rheoleiddwyr lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau rheoleiddio.
- Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd parti lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny dan y gyfraith.
- Os ydym yn gwerthu unrhyw ran o'n busnes a/neu'n ei integreiddio â sefydliad arall, mae'n bosib y bydd eich manylion yn cael eu datgelu i'n cynghorwyr ac i ddarpar brynwyr neu gyd-bartneriaid yn y fenter a'u cynghorwyr. Os bydd hyn yn digwydd, ni fydd perchnogion newydd y busnes ond yn cael defnyddio'ch gwybodaeth yn yr un ffordd, neu ffordd debyg, i'r hyn a ddisgrifir yn y rhybudd preifatrwydd hwn.

Pan fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd parti, rydym yn sicrhau bod gennym fesurau priodol ar waith i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio at ddibenion dilys yn unig, yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

**Error! Reference source not found.** Rydym yn cymryd pob gofal rhesymol i gadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn mynnu bod unrhyw drydydd parti sy'n trin neu brosesu eich gwybodaeth bersonol ar ein rhan ni'n gwneud yr un fath. Mae mynediad at eich gwybodaeth bersonol wedi'i gyfyngu er mwyn atal mynediad heb ganiatâd, neu unrhyw ymgais i'w haddasu neu ei chamddefnyddio; ni chaniateir mynediad ond i'n gweithwyr ac asiantau, a hynny dim ond os ydyn nhw angen gwybod.

Drwy'r pecyn cymorth byddwn yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn ddiogel ac yn diogelu mynediad at ddata a systemau.

Mesurau diogelwch gweinydd UCM, sy'n cynnal pecyn cymorth Effaith Gwyrdd a'i gronfeydd data:

- Diogelwch mur cadarn ar gyfer y rhwydwaith a'r cleient, gwirio firws a diweddariadau drwgwedd, ynghyd â rheolaeth dros ddyfeisiadau storio
- Rheolaeth dros fynediad i bob Ffeil/Ffolder er mwyn diogelu mynediad at ddata
- Rheolaethau dros Fynediad Diogel i weinyddion a chronfeydd data
- Polisi cyfrinair cryf ar gyfer rheoli dyfeisiadau a systemau

- Gwaith trwsio a diweddarau rheolaidd ar gyfer y cleient, y gweinydd a chymwysiaidau
- Cadw copïau wrth-gefn ar lefel Gweinydd, Cronfa Ddata a Ffeil/Ffolder
- Dileu diogel cyn gwaredu hen gyfrifiaduron a dyfeisiau storio
- Rheoliadau adrodd yn ôl ar gyfer Archwilio a Monitro Systemau
- Profion Treiddiad Blyneddol o Ddiogelwch Systemau
- Mynediad diogel ac wedi'i amgryptio i gleientiaid at systemau UCM
- Amgryptio un-ffordd a diogelu cyfrinair
- Cyswllt https gydag adroddiad SSL A

### **Pa bryd ydych chi'n trosglwyddo eich gwybodaeth yn Ewrop a thramor?**

**Reference source not found.** Mae menter Effaith Gwyrdd bellach yn cael ei chyflwyno mewn amryw o wahanol ranbarthau rhyngwladol. Mae gennym amddiffyniadau o fewn meddalwedd y pecynnau cymorth sy'n atal unrhyw weinyddwyr o bartneriaid trwyddedig mewn rhannau eraill o'r byd rhag cael mynediad i'ch data.

Felly, gallwch fod yn sicr mai dim ond UCM y DU, sef perchnogion Effaith Gwyrdd, a'r sefydliad rheoli ar gyfer eich ranbarth rhyngwladol fydd yn gweld eich data:

- Er mwyn cyflwyno Effaith Gwyrdd yn yr Iseldiroedd, yr Almaen a Gwlad Belg, rydym wedi ffurfio partneriaeth â [rootAbility](#).
- Er mwyn cyflwyno Effaith Gwyrdd yn Awstralia, rydym wedi ffurfio partneriaeth ag [ACTS](#).

**Error! Reference source not found.** Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol dim ond cyhyd ag y bydd ei hangen arnom i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus yn eich sefydliad.

Caiff eich data proffil (enw, e-bost, rhif ffôn, tîm, lleoliad) ei ddileu yn awtomatig os yw'n segur am ddwy flynedd (h.y. os na fyddwch yn mewngofnodi o fewn cyfnod o ddwy flynedd).

Gallwch gysylltu â'r tîm cyflwyno Effaith Gwyrdd lleol yn eich sefydliad i ofyn am gael eich cyfrif wedi'i ddileu ar unrhyw adeg.

**Error! Reference source not found.** Mae gennych nifer o hawliau parthed eich gwybodaeth bersonol, mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i:

- gael eich hysbysu ynglŷn â sut yr ydych chi'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol
- cael mynediad at wybodaeth bersonol amdano chi sydd yn ein meddiant
- gofyn am gael eich gwybodaeth bersonol wedi'i chywiro os ydych chi'n credu ei bod yn anghywir neu'n anghyflawn
- gofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol dan yr amgylchiadau canlynol:
  - os ydych chi'n parhau i brosesu data personol y tu hwnt i'r cyfnod pan fo angen gwneud hynny at y diben y cafodd ei gasglu'n wreiddiol
  - os nad ydych chi bellach eisiau cymryd rhan, a'ch bod am i ni ddileu eich data
  - os ydych chi'n dibynnu ar fuddiannau cyfreithlon fel y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu, a'ch bod yn gwrthwynebu'r prosesu hwn ac nid oes unrhyw sail bwysicach yn ein galluogi i barhau â'r prosesu

- os yw'r data personol wedi cael ei brosesu'n anghyfreithlon (h.y. yn groes i ofynion y ddeddfwriaeth diogelu data)
- os oes angen dileu'r data personol er mwyn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol
- gallwch ofyn i ni gyfyngu ein gweithgareddau prosesu data lle rydych chi'n ystyried:
  - bod gwybodaeth bersonol yn anghywir
  - bod ein prosesu o'ch gwybodaeth bersonol yn anghyfreithlon
  - lle nad oes angen yr wybodaeth bersonol bellach arnom ond rydych yn gofyn i ni ei chadw er mwyn eich galluogi i sefydlu, cyflwyno neu amddiffyn achos cyfreithiol;
  - mewn achos lle rydych wedi mynegi gwrthwynebiad i'n defnydd o'ch gwybodaeth bersonol
- gallwch ofyn am gopi o wybodaeth bersonol benodol yr ydych wedi'i rhoi i ni mewn fformat electronig a ddefnyddir yn gyffredin. Mae'r hawl hon yn ymwneud â gwybodaeth bersonol yr ydych wedi'i darparu i ni er mwyn ein galluogi i gyflawni ein cytundeb â chi, yn ogystal â gwybodaeth bersonol lle'r ydym yn dibynnu ar ganiatâd i brosesu eich gwybodaeth bersonol;
- gallwch wrthwynebu'r ffaith ein bod yn prosesu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwn ni'n dibynnu ar fuddiannau cyfreithlon neu fudd y cyhoedd i wneud y prosesu'n gyfreithlon. Os byddwch yn gwrthwynebu, byddwn yn cynnal asesiad i benderfynu a oes gennym ni sail gyfreithlon sy'n trechu pob gwrthwynebiad, sy'n rhoi'r hawl i ni barhau i brosesu eich gwybodaeth bersonol;
- ni ddylech fod yn destun penderfyniadau awtomatig sy'n cynhyrchu effeithiau cyfreithiol neu a allai gael effaith yr un mor sylweddol amoch chi.

Os ydych chi am ymarfer unrhyw un o'ch hawliau neu os ydych chi am ganfod mwy, mae croeso i chi gysylltu â [dpo@nus.org.uk](mailto:dpo@nus.org.uk).

## Cwynion

### Manylion cysylltu

Mae ein manylion cysylltu fel a ganlyn:

Cyfeiriad: Ian King House, Snape Road, Macclesfield, Swydd Caer, SK10 2NZ

Ffôn: 0300 303 8602

Rydym wedi penodi person sy'n gyfrifol am faterion diogelu data sydd â chyfrifoldeb am ein cyngori ar ein dyletswyddau parthed diogelu data. Gallwch gysylltu â'r person yma drwy ddefnyddio'r manylion canlynol:

[DPO@nus.org.uk](mailto:DPO@nus.org.uk)

### Cwynion

Os oes gennych chi unrhyw gwynion am y ffordd yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol, cysylltwch â [DPO@nus.org.uk](mailto:DPO@nus.org.uk) a fydd yn ceisio datrys y mater. Os na allwn

ddatrys eich cwyn, mae gennych yr hawl i gwyno i'r awdurdod diogelu data yn eich gwlad (y Comisiynydd Gwybodaeth yn y DU).